



Community Shares Wales

Resilience Project

Case Study: Câr-y-Môr

Sustainable seaweed farm is making waves in Pembrokeshire: It is famous for its cathedral and its pilgrims, but a burgeoning Community Benefit Society in St David's, Pembrokeshire is making waves for its sugar kelp and furbellows.

Câr-y-Môr is a thriving sustainable seaweed farm off the coast of St David's and thanks to a successful community share offer the ambitious scheme has raised more than £200,000 and attracted investors from all over the world. The group behind Câr-y-Môr set up a pair of pilot farms off the St David's Peninsula where they experimented with growing different native seaweed and shellfish species, while learning the techniques needed to create an ocean farm. They have now set up a larger, three-hectare farm, operating on a commercial scale, seeing seaweed and shellfish thrive together. The aim is to have a positive impact on the environment by creating nursery habitats, coastal storm protection and water filtering, while creating meaningful employment in the area – and offering great, natural products to consumers.


There are around 600 species of seaweed in coastal UK, all of which are edible, and they are high in protein and rich in essential minerals. The Câr-y-Môr model uses 3D regenerative ocean farming - this mimics the natural marine processes and maximises diversity by seeing two or more organisms grown together. This method has been shown to be beneficial for the environment.



Dan Lewis, Câr-y-Môr's stakeholder Engagement Officer, said: "Câr-y-Môr is doing very well and we think it will become a model for similar ventures elsewhere. We have attracted investors from the Netherlands, the US, England, and locally here in Pembrokeshire, I think because people everywhere recognise the need for more sustainable ways of living and feeding ourselves, and seaweed is highly nutritious and readily available to us as a coastal nation."

Dan says: "We only farm species that are native to the area so there is no risk of us introducing invasive species. So, our seaweed is grown from seeds taken from local seaweed and our oysters and scallops are native. Our mussels naturally settle on our mussel lines."

The site generates a lot of public interest and customers can visit the online shop to buy products like crab and lobster or dried sugar kelp. So far the project has been able to support 15 paid members of staff as well as being boosted by 20 volunteers and being managed by a board of nine. The jobs have been created in the retail and seafood processing side of what we do and increasingly in the farming side.



For more details about Câr-y-Môr go to:
www.carymor.wales/home

Cwmpas has been on hand to advise the Câr-y-Môr committee from its infancy about the technical and operation details of a Community Benefits Society for a venture like this one, and they helped with creating a well-structured business plan.

Dan says: "Local job creation is an important part of what we are doing at Câr-y-Môr, and we are seeing the impact of the project on the local marine environment but also on land, in our communities and in the local economy. Câr-y-Môr is the first community-owned regenerative ocean farm in Wales, and I hope others follow if the conditions are right in other parts of the country. We have a diverse membership of 180 people from all walks of life who are all focussed upon creating a lasting legacy here in St David's."

Dan continues: "It can be a complicated process but there is support out there from organisations like Cwmpas. And I think there is growing awareness about Community Benefits Societies and I think that awareness will only grow. A Community Benefit Society is the ultimate community business since it is owned equally by all its members and membership is open to anyone who supports its aims. Any generated profit is reinvested into the society rather than being distributed to shareholders or members.

"So, yes, I would encourage other groups to look at the assets or the potential assets in their communities and their surroundings and think about creating something that serves the interests of area and the community. We have had visits from like-minded people, and I am sure this will continue as word spreads and as we become more established."

About us

[Community Shares Wales Resilience Project](#) is funded by the National Lottery Community Fund and delivered by Cwmpas. We help communities raise investment to protect and strengthen the things that matter to them.

Email: csw@cwmpas.coop
Online: www.cwmpas.coop
Telephone: 0300 111 5050

cwmpas





Prosiect Gwydnwch Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru

Astudiaeth Achos: Câr-y-Môr

Llwyddiant fferm wymon gynaliadwy yn Sir Benfro: Mae'n enwog am ei heglwys gadeiriol a'i phererinion, ond Cymdeithas Budd Cymunedol ffyniannus sy'n gwneud enw iddi'i hun yn Nhyddewi'r dyddiau hyn a hynny am ei môr-wregys a'i phlethi môr.

Fferm wymon gynaliadwy ffyniannus oddi ar arfordir Tyddewi yw Câr-y-Môr, a diolch i gynnig cyfranddaliadau cymunedol llwyddiannus mae'r cynllun uchelgeisiol wedi codi dros £200,000 a denu buddsoddwyr o bob cwr o'r byd. Sefydlodd y grŵp sy'n gyfrifol am Câr-y-Môr ddwy fferm beilot oddi ar benrhyn Tyddewi a mynd ati i arbrofi gyda thyfu gwahanol rywogaethau o wymon a physgod cregyn brodorol, tra'n dysgu'r technegau angenrheidiol i greu fferm fôr. Maent wedi sefydlu fferm fwy, tri hectar, erbyn hyn sy'n gweithredu ar raddfa fasnachol, gyda gwymon a physgod cregyn yn ffynnu gyda'i gilydd. Y nod yw cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd drwy greu cynefinoedd meithrin, diogelu rhag stormydd ar yr arfordir a hidlo dŵr, gan greu swyddi ystyrlon yn yr ardal - a chynnig cynhyrchion naturiol, gwych i ddefnyddwyr.


Mae tua 600 rhywogaeth o wymon ar arfordir y DU, pob un ohonynt yn fwytadwy, ac maent yn llawn protein a mwynau hanfodol. Mae model Câr-y-Môr yn defnyddio ffermio môr aildyfu 3D – mae hyn yn efelychu'r prosesau morol naturiol ac yn sicrhau cymaint o amrywiaeth â phosibl drwy weld dwy organeb neu fwy yn tyfu gyda'i gilydd. Profwyd bod y dull hwn yn fuddiol i'r amgylchedd.



Meddai Dan Lewis, Swyddog Ymgysylltu Rhanddeiliaid Câr-y-Môr: "Mae Câr-y-Môr yn gwneud yn dda iawn ac rydym yn credu y bydd yn dod yn fodel ar gyfer mentrau tebyg mewn mannau eraill. Rydym wedi denu buddsoddwyr o'r Iseldiroedd, UDA, Lloegr, ac yn lleol yma yn Sir Benfro, rwy'n meddwl am fod pobl ym mhobman yn cydnabod yr angen am ffyrdd mwy cynaliadwy o fyw a bwydo'n hunain, ac mae gwymon yn faethlon iawn ac mor hawdd i'w gael i ni fel cenedl arfordirol."

Meddai Dan: "Dim ond rhywogaethau sy'n gynhenid i'r ardal rydym yn eu ffermio felly nid oes perygl i ni gyflwyno rhywogaethau ymledol. Felly, mae ein gwymon yn cael ei dyfu o hadau sy'n cael eu cymryd o wymon lleol ac mae ein hwystrys a'n cregyn bylchog yn frodorol. Mae ein cregyn gleision yn setlo'n naturiol ar ein llinellau cregyn gleision."

Mae'r cyhoedd yn dangos llawer o ddi-ddordeb yn y safle a gall cwsmeriaid ymweld â'r siop ar-lein i brynu cynhyrchion fel cranc a chimwch neu fôr-wregys wedi sychu. Hyd yn hyn, mae'r prosiect wedi gallu cynnal 15 aelod cyflogedig o staff gyda chymorth 20 o wirfoddolwyr gyda bwrdd rheoli o naw. Mae'r swyddi wedi'u creu yn ochr manwerthu a phrosesu bwyd môr ein busnes ac, yn gynyddol, ar ochr ffermio.



I gael rhagor o fanylion am Câr-y-Môr, ewch i: www.carymor.wales/home

Mae Cwmpas wedi bod wrth law i gynghori pwyllgor Câr-y-Môr o'i ddyddiau cynnar am fanylion technegol a gweithredu Cymdeithas Budd Cymunedol ar gyfer menter fel hon, a buont yn helpu i greu cynllun busnes wedi'i strwythuro'n dda.

Meddai Dan: "Mae creu swyddi lleol yn rhan bwysig o'r hyn rydym yn ei wneud yng Nghâr-y-Môr, ac rydym yn gweld effaith y prosiect ar yr amgylchedd morol lleol, ac ar y tir hefyd, yn ein cymunedau a'r economi leol. Câr-y-Môr yw fferm fôr aildyfu gymunedol gyntaf Cymru, ac rwy'n gobeithio y bydd eraill yn dilyn os yw'r amodau'n briodol mewn rhannau eraill o'r wlad. Mae gennym aelodaeth amrywiol o 180 o bobl o bob cefndir sydd i gyd yn awyddus i greu rhywbeth o werth parhaol yma yn Nhyddewi."

Meddai Dan: "Mae'r broses yn gallu bod yn gymhleth ond mae cymorth ar gael gan sefydliadau fel Cwmpas. Ac rwy'n credu bod yna ymwybyddiaeth gynyddol am Gymdeithasau Budd Cymunedol ac y bydd yr ymwybyddiaeth honno'n tyfu. Cymdeithas Budd Cymunedol yw'r busnes cymunedol perffaith gan fod pob aelod yn berchen ar gyfran gyfartal ohoni ac mae aelodaeth yn agored i unrhyw un sy'n cefnogi ei nodau. Mae unrhyw elw'n cael ei ail-fuddsoddi i'r gymdeithas yn hytrach na'i ddsbarthu i randdeiliaid neu aelodau.

"Felly, byddwn yn annog grwpiau eraill i edrych ar yr asedau neu'r asedau posibl yn eu cymunedau a'u cyffiniau a meddwl am greu rhywbeth sy'n fuddiol i fuddiannau'r ardal a'r gymuned. Rydym wedi cael ymweliadau gan bobl o'r un anian, ac rwy'n siŵr y bydd hyn yn parhau wrth i'r newyddion ledaenu ac wrth i n ennill ein plwyf."

Amdanom ni

Ariennir [Prosiect Cadernid Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru](#) gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol Cymru ac mae'n cael ei ddarparu gan Cwmpas. Rydym yn helpu cymunedau i gael buddsoddiad i ddiogelu a chryfhau'r pethau sydd o bwys iddyn nhw.

Ebost: csw@cwmpas.coop
Ar-lein: www.cwmpas.coop
Ffôn: 0300 111 5050

cwmpas

